## ATODLEN 23

## DIWYGIADAU I DDEDDF CASGLU A RHEOLI TRETHI (CYMRU) 2016

6 Ar ôl adran 38 mewnosoder—

“**38A Dyletswydd i gadw cofnodion a’u storio’n ddiogel: trafodiadau tir nad oes angen dychwelyd ffurflen dreth mewn cysylltiad â hwy**

(1) Mae’r adran hon yn gymwys mewn perthynas â thrafodiad tir, ac eithrio trafodiad o fath a restrir yn adran 65(4) o DTTT, nad yw’n ofynnol dychwelyd ffurflen dreth mewn cysylltiad ag ef.

(2) Rhaid i’r prynwr mewn trafodiad tir y mae’r adran hon yn gymwys iddo—

(a) cadw unrhyw gofnodion y gall fod eu hangen i alluogi’r prynwr i ddangos nad yw’n ofynnol dychwelyd ffurflen dreth, a

(b) storio unrhyw gofnodion y gall fod eu hangen at y diben hwnnw yn ddiogel.

(3) Rhaid storio’r cofnodion yn ddiogel hyd ddiwedd y dyddiad perthnasol.

(4) Y “dyddiad perthnasol” yw chwe mlynedd i’r dyddiad y mae’r trafodiad yn cael effaith.

(5) Ond os yw ACC yn pennu dyddiad cynharach o dan yr is-adran hon, y “dyddiad perthnasol” yw’r dyddiad a bennir.

(6) Caniateir pennu dyddiau gwahanol at ddibenion gwahanol o dan is-adran (5).

(7) Yn is-adran (4), mae i’r “dyddiad y mae’r trafodiad yn cael effaith” yr un ystyr ag yn DTTT.”